# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, C Townsend, T Watkins, B Davies, P Drewett, D Jenkins and A Screen<br><br>Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu) |
| Yn bresennol: | |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr P Bright, M Pimm and M Al-Nuaimi |

---

1 **Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr Paul Bright, Miqdad Al-Nuaimi a Matthew Pimm

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim

3 **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Dywedodd y Swyddog Craffu wrth y Pwyllgor y byddid yn cytuno ar gofnodion y cyfarfod blaenorol yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2023.

4 **Cynlluniau Meysydd Gwasanaeth 2022-24**

**Gwasanaethau Plant**

**Gwahoddwyd:**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol- Sally Jenkins  Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc- Natalie Poyner

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

**Cwestiynau:**

Gofynnodd y Pwyllgor am y Tîm Rhyngwladol gan nad oedd unrhyw amcanion lles na dyddiad a ragwelwyd ar gyfer cwblhau.

- Yr oedd y tîm hwn yn cael ei ddatblygu oherwydd y nifer fawr o geiswyr lloches sy'n cyrraedd y porthladd, yn aros mewn gwestai, ac yn symud ymlaen. Mae eraill yn cyrraedd ar hap. Yr oedd rhai teuluoedd Heb Allu Cyrchu Arian Cyhoeddus, ac y mae gan yr awdurdod ddyletswydd i'w cynnal. Felly, roedd angen tîm i gefnogi'r anghenion

hyn, ond ni fyddai hyn yn costio'n ychwanegol oherwydd bod y Swyddfa Gartref yn darparu arian ar gyfer pob plentyn sy'n ceisio lloches.
- Cadarnhawyd fod fformat gwahanol i'r adroddiad yn cael ei anfon i'r Pwyllgor a bod y Tîm Rhyngwladol yn dod dan Amcan Lles 3.

Llongyfarchodd y Pwyllgor y gwasanaethau cymdeithasol am y modd maent yn cefnogi teuluoedd o Wcrain mew ffordd ardderchog.

Gofynnodd y Pwyllgor am ail-strwythuro'r Timau Amddiffyn Plant.

- Yr oedd 4 tîm Amddiffyn Plant o'r blaen, ond yr oedd galw cynyddol am gefnogi rhai yn eu harddegau, a rhai pobl ifanc yn rhan o Gam-fanteisio ar Blant. Yr oedd Tîm newydd yn cael ei ddatblygu fyddai'n fwy dwys ac yn gweithio gyda phlant 10 oed a hŷn, gyda llai o faich achosion i atal y plant hynny rhag mynd i ofal. Yr oedd Rheolwr Tîm eisoes yno, a byddai gweithwyr cymdeithasol sy'n uwch-ymarferwyr yn symud drosodd i'r tîm hwnnw.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd llawer o ymwneud rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a Phenaethiaid ysgolion.

- Gwnaeth tîm y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ymchwil yn ddiweddar oed dyn edrych ar batrymau ymddygiad trwy olrhain rhai pobl ifanc, ac yr oedd clwstwr yn Llanwern oedd yn gweithio gyda phlant bregus. Y canlyniad oed dy gwelwyd fod gan y bobl ifanc anawsterau iaith a lleferydd oedd yn heriol yn y blynyddoedd trosiannol.

Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd canran y plant oedd yn aildroseddu

- Nifer fach iawn o blant oedd yn cael eu cefnogi ar orchmynion yng Nghasnewydd – yr oedd 17 i 18% yn gwneud gwaith ataliol gyda llawer o weithgareddau. Yng Nghasnewydd, mae proses o'r enw Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol sy'n mynd â'r plant hyn i Banel i'w hatal rhag cael eu masnachu, etc., a'u rheoli mewn ffordd fyddai'n eu hatal rhag aildroseddu. Yr oedd y pecyn cymorth hefyd yn cael ei adolygu gan y rheolwr gwasanaeth.
- Cadarnhawyd y byddai'r tîm, wedi ei ailstrwythuro, yn gyflawn erbyn Mawrth 2023.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd llawer o blant anabl mewn gofal.

- Ychydig oedd mewn lleoliadau gofal. Mae gan y system 20-30 mewn gofal. Yr oedd rhai o'r rhain yno gyda chydsyniad y rhieni, a rhai gyda rhieni nad oedd yn gallu gofalu amdanynt oherwydd eu hanghenion eu hunain, felly roedd y plant hynny wedi eu hesgeuluso. Rhain yw'r plant gyda'r anghenion mwyaf cymhleth, ac nid oedd digon o lefydd. Hefyd, byddai'n rhaid i unrhyw ddarparwyr oedd yn gwneud elw o ofal maeth roi'r gorau i weithredu. Yr oedd y tîm yn dibynnu ar ddarparwyr i roi gofal i blant anabl,. Ac yr oeddent yn gweithio gyda Gweithredu dros Blant i ddatblygu darpariaeth breswyl. Cafwyd trafodaethau gyda'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol am gyllid cyfalaf i'n plant anabl ddychwelyd i Gasnewydd. Byddai disgwyl i'r ddarpariaeth bresennol roi'r gorau i weithredu.

Gofynnodd y Pwyllgor pa ganran o blant oedd y tu allan i Gasnewydd.

- Yr oedd 20 o blant , rhai yn anabl, mewn gofal preswyl, gyda llawer mewn gofal maeth y tu allan i Gasnewydd. Lleolwyd rhai o'r plant hyn yng Nghaerffili a Thorfaen mewn gofal maeth. Yr oedd tîm y Plant Anabl yn cefnogi 360 o blant i gyd, felly roedd y nifer yn fach.

Holodd y Pwyllgor a oedd unrhyw leoliadau heb eu cofrestru.

- Ar hyn o bryd yr oedd 3 o blant mewn lleoliadau heb eu cofrestru, gyda 2 leoliad wedi eu nodi i'r plant hyn fydd yn symud toc.
- Dywedodd y Pwyllgor nad yw hyn yn foddhaol a gofyn a all y Pwyllgor gael adroddiad am wneud i ffwrdd â'r lleoliadau hyn.
- Gofynnodd y Cyfarwyddwr Strategol am gyflwyno adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor fyddai'n esbonio hyn yn fanylach. Yr oedd y Tîm yn glir  eu bod yn gweithio Gydag Arolygiaeth Gofal Cymru o fewn y fframwaith.

Gofynnodd y Pwyllgor am adawyr gofal ac a oedd tai yn cael eu darparu iddynt pan fyddent yn gadael gofal.

- Cadarnhawyd fod stoc fawr o lety gyda pheth cefnogaeth, a bod darparwyr eraill ar gael hefyd. Bu 2 ddarpariaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, un i rai 16-18 oed, un ddarpariaeth 24 awr, ac yr oedd y llall i rai 18+ er mwyn i'r rhai oedd yn gadael gofal drosi yn ddiwnïad. Yr oedd y tîm hefyd yn gweithio gyda Pobl, sef darpariaeth i rai 16-18 oed, ac yr oedd y  Rheolwr Gwasanaeth newydd hefyd am gynnig llety gyda chefnogaeth.

Holodd y Pwyllgor a oedd y trosi yn brofiad da neu ddrwg i'r sawl oedd yn gadael gofal.

- Yr oedd hyn yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn, ond yr oedd y tîm yn gweithio gyda'r adran tai, CAB a Sgiliau Byw i'w paratoi ar gyfer y trosi. Yr oedd Panel Byw Annibynnol ar gael, lle'r oedd rhai 15+ yn cael eu cyfeirio er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl ddewisiadau wedi eu trafod. Yr oedd gweithdai ar gael i sicrhau bod gan y bobl ifanc hyn sgiliau cyllid a choginio digonol. Yr oedd y tîm Pathway yng Nghasnewydd yn canoli ar edrych ar ôl gadawyr gofal yn unig.

Gofynnodd y Pwyllgor am nifer cyfyngedig y dewisiadau llety oedd ar gael.

- Y gobaith oedd y byddai'r portffolio yn cynyddu wrth i adawyr gofal gael eu cefnogi wedi iddynt gyrraedd 18 oed, ac y mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r adran tai, gan ganolbwyntio ar lety mewn unedau sengl, ac yr oedd strategaeth tai ar y gweill. Er i'r adroddiad grybwyll dewisiadau cyfyngedig, yr oedd y stoc yn fawr o gymharu ag awdurdodau eraill.
- Cafodd y rhai oedd yn gymwys am wasanaethau oedolion eu cysylltu â'r gwasanaethau hynny. Ni chafodd y plant hynny oedd dan 18 eu troi allan, ac fe'u cefnogwyd.

Gofynnodd y Pwyllgor am y strategaeth ar ddarpariaeth breswyl i Rieni a Babanod.

- Yr oedd awdurdodau lleol yn cael cais i wneud bidiau am arian er mwyn cael darpariaeth ar raddfa fechan fel y gallai mamau a'u babanod aros gyda'i gilydd. Cafodd hyn ei weld yma ac yng Nghaerffili lle'r oedd llawer o fenywod oedd angen cefnogaeth adeg geni. Yr oedd y tîm yn aros am y llythyr dyfarnu grant cyn gweld lle byddai angen gwario'r arian.

Gofynnodd y Pwyllgor am brynu lle newydd neu ail-ddefnyddio rhywle ar gyfer darpariaeth breswyl i Rieni a Babanod.

- Yr oedd trafodaethau'n digwydd ar hyn o bryd ynghylch a oedd rhywle yng Nghasnewydd y gellid ei ddefnyddio neu ei adnewyddu. Yn y cyfnod cynnar yr oedd y trafodaethau hyn, ac yr oedd gobaith am ddarpariaeth amlddisgyblaethol ac amlbwrpas.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ganlyniadau hyn, a chadarnhawyd y byddai'n mynd y tu hwnt i 2023 a'i fod yn fwy tebygol o gael ei gwblhau yn 2025.

Gofynnodd y Pwyllgor am gyfanswm nifer y plant a dynnwyd oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gyda 148 yn codi i 207, a nifer y plant oedd yn dod i ofal yn codi o 91 i 106, ac a oedd cydberthynas rhwng y ddau ffigwr?

- Lle mae plant mewn perygl o niwed arwyddocaol, cânt eu cefnogi ar gynllun gofal a chefnogaeth. Os bydd y risg yn gwaethygu, yna cânt eu gosod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Y dewis olaf oedd symud plant o'u cartrefi. Bu'r nifer cyffredinol yn sefydlog ers rhai blynyddoedd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion oedd yn cael eu cyfeirio; roedd teuluoedd mewn trafferthion oherwydd rhesymau cymhleth megis Covid, trais domestig a chostau byw.

Gofynnodd y Pwyllgor am y risgiau a'r pwysau dros y ddwy flynedd nesaf.

- Problem gweithlu oedd y brif broblem, ac nid i Gasnewydd yn unig. Yr oedd yn anodd denu pobl i broffesiwn gwaith cymdeithasol, a llawer o waith yn mynd rhagddo i gefnogi hyn.
- Yr oedd gan deuluoedd mewn cymdeithas anghenion cymhleth, a hyn yn arwain at feichiau achos trwm. Yr oedd gwaith yn cael ei wneud gyda'r gwasanaeth Atal i gyfeirio teuluoedd ymaith oddi wrth ddarpariaethau statudol.

Gofynnodd y Pwyllgor a holwyd Llywodraeth Cymru am gefnogaeth ariannol ychwanegol.

- Cytunwyd fod hyn ar yr agenda a hefyd ar agenda'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

**Gwasanaethau Oedolion**

**Gwahoddwyd:**
Cyfarwyddwr Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol- Sally Jenkins  Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol- Cynghorydd Jason Hughes

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet  ei bod yn gyfnod anodd i weithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol, gyda phroblemau recriwtio ac ati; crybwyllwyd arbedion hefyd, oedd yn golygu pwysau ar wasanaethau ar lefel leol.

**Cwestiynau:**

Gofynnodd y Pwyllgor am wasanaethau ysbytai a pha gefnogaeth mae'r gwasanaethau oedolion yn roi.

- Mae hwn yn wasanaeth helaeth, lle mae'r tîm yn gweithio gyda thîm yr ysbyty i wneud yn siŵr fod y gwasanaethau gorau oll ar gael. Yr oedd y system hon dan bwysau enbyd gyda ffliw, ac yn sgil Covid. Pwysleisiwyd, wrth chwilio am ofal i bobl, mai'r nod oedd iddynt aros yn y gymuned, ac yr oedd hyn yn her fawr. Bu'r Aelod Cabinet hefyd yn bresennol yn y trafodaethau hynny.

Gofynnodd y Pwyllgor am ysbyty'r Faenor a faint o drigolion Casnewydd oedd yn yr ysbyty hwnnw.

- Cadarnhawyd fod y tîm yn gweithio gyda holl ysbytai Gwent oherwydd bod cymaint o amrywiaeth o wasanaethau. Yr oedd y tîm yn ymwybodol o'r ffigwr hwn a gellid darparu data petai angen. Yr oed dy ffigwr yn newid o ddydd i ddydd, a chraffu'n digwydd yn rheolaidd. Mae angen cefnogi a chynorthwyo'r staff.

Gofynnodd y Pwyllgor am Camu Lan Camu Lawr ac ehangu hyn.

- Yr oedd mynediad at hyn yn hynod bwysig. Yr oedd yn dibynnu ar gyrchu'r gwasanaethau therapi cywir, a byddid yn wastad yn ceisio ehangu'r gwasanaeth.

Dywedodd y Pwyllgor fod dod â phlant yn ôl yn llwyddo: a allai hyn weithio i oedolion?

- Cadarnhawyd ein bod yn edrych ar yr holl opsiynau, ond bod y farchnad yn wahanol i oedolion. Darparwr bychan lleol oedd yn cael ei ddefnyddio, yn wahanol i ddarparwyr plant, ac yr oedd yr heriau'n wahanol. Gydag oedolion, gofal tymor byr oedd yr angen mawr. Yr oedd nifer y darparwyr hefyd yn wahanol iawn, ac angen mwy o ddarpariaeth i oedolion.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau am y gwasanaeth Ambiwlans, a'r ciwio pan mai dim ond un tîm ambiwlans oedd yn cael ei neilltuo.

- Yr oedd y tîm Ambiwlans yn gwneud hyn er mwyn sicrhau fod pobl yn gadael yr ysbyty yn gynt. Yr oedd y gweithlu yn her fawr: roedd yn bwysig sicrhau camau i dalu cyflog byw, ond yr oedd problemau'n dal, er hynny.

Gofynnodd y Pwyllgor am bwysau ar y Bwrdd Iechyd i helpu.

- Yr oedd manteision i'r naill ochr a'r llall i gael hyn yn iawn, ond nid oedd yn berffaith. Yr oed yn heriol iawn, gyda chydweithwyr y gwasanaeth Iechyd dan lawer o bwysau trwy'r flwyddyn.

Gofynnodd y Pwyllgor a allai hyn gael ei gynnwys ar y rhaglen waith yn y dyfodol, ac i gyfarfod arbennig gael ei gynnull, gyda gwahoddiad i'r Bwrdd Iechyd.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd modd amlinellu sut i wella cyfathrebu.

- Esboniwyd bod yr wythnos Ddiogelu wedi ei chynnal yng nghyntedd y Ganolfan Ddinesig gyda chyfres o ddigwyddiadau i gyfathrebu yn ehangach. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo hyn.
- Yr oedd hyfforddiant ar gael i'r holl Aelodau a'r staff, a byddai hyn yn parhau. I'r Aelodau hynny sydd ar gyrff llywodraethol, mae ganddynt hwy gyfrifoldeb i ledaenu'r neges, ac y mae fforwm hefyd sydd yn cwrdd, a chyda'r wythnos Ddiogelu, gall pob asiantaethau gyrchu'r gweithgareddau, a deunyddiau'r Rhuban Gwyn yn cael eu rhoi i'r Aelodau.

Gofynnodd y Pwyllgor am bryderon ynghylch teuluoedd y tu allan i'r awdurdod lleol a sut mae modd craffu i weld a oes ganddynt hwy broblemau diogelu.

- Y mae hyn yn digwydd, ond mae'n brin. Mae teuluoedd yn cael eu cyfeirio a'u hasesu yn yr un modd, a gall rhai teuluoedd ddod i mewn o unrhyw ardal arall. Yr oedd diogelu yn cael ei gydnabod yn y sefyllfaoedd hyn, ac nid oedd yr awdurdod lleol yn osgoi eu cyfrifoldeb. Yr oedd tîm y gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o system TG ledled Cymru, y gellid mynd ati o unrhyw ran o Gymru. Byddid yn cysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol, ac yr oedd y tîm hefyd yn cydweithio'n agos â'r Heddlu.

Holodd y Pwyllgor am aelodau etholedig oedd yn gysylltiedig â wardiau lleol, ac a oedd modd hwyluso hysbyseb trwy'r rhwydwaith lleol, gan fod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau am y ddarpariaeth i oedolion ag anawsterau dysgu.

- Cadarnhawyd nad oedd y nifer yn uchel, ond y gwnaed llawer o waith ar fodelau o ofal, a phetai'r Pwyllgor yn cytuno, dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai ei dîm yn dod yn ôl i'r Pwyllgor i gyflwyno'r gwaith hwn a dangos y camau mae'r plant hyn wedi'u gwneud nawr eu bod yn oedolion.

Yr oedd y tîm yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl lle'r oedd y modelau yn cynnig llety o ansawdd uchel.

Gofynnodd y Pwyllgor am yr anhawster wrth ddod o hyd i staff.

- Yr oedd yn haws cael gweithwyr gan ei fod yn waith cyson, ond yr oedd problem o hyd. Soniwyd am waith gyda landlordiaid cofrestredig. Yr oedd y Rhaglen Dileu ar gyfer plant, nid gofal cymdeithasol i oedolion.

Cadarnhawyd wrth y Pwyllgor y byddai deddfwriaeth diogelu yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn nesaf.

Gofynnodd y Pwyllgor am gofrestr risg y meysydd gwasanaeth, a chadarnhawyd mai 'Oren' oedd y risg 'Amber'.

- Dywedodd y Swyddog Craffu mai lliwiau'r risgiau oedd Coch, Oren, Melyn a Gwyrdd.

5 **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr yr adroddiad i'r Pwyllgor.

**Cwestiynau:**

Gofynnodd y Pwyllgor am y Gwasanaeth Ymateb Sydyn i deuluoedd: a oedd arian ar gael yn awr, a pha effaith a gaiff.

- Defnyddiwyd arian adfer o Covid i ehangu'r gwasanaeth, ond yr oedd arian arall ar gael, a chyfeiriwyd at grantiau eraill.
- Yr arwyddion cynnar oedd y byddai'r ceisiadau yn llwyddiannus, ond yr oeddem yn disgwyl am gadarnhad.

Gofynnodd y Pwyllgor am gefnogaeth addysgol ychwanegol ac a oedd TG yn rhan o hyn.

- Y mae hyn yn digwydd eisoes ac y mae'r tîm yn rhagweithio gyda TG ac yn defnyddio'r offer iawn lle'r oedd llawer o blant yn cwblhau cyrsiau a sesiynau ar-lein, a bod hyn yn gadarnhaol. Yr oedd Cynadleddau Amddiffyn Plant yn rhedeg yn well, a mwy o gydweithwyr o Iechyd yn bresennol.
- Yr oedd technoleg i weithio gyda phobl hŷn hefyd yn bwysig. Byddai cleifion dementia yn derbyn babanod electronig i'w dal, ac yr oedd hyn yn llesol iawn iddynt. Byddai newidiadau mawr iawn yn digwydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Gofynnodd y Pwyllgor am adnoddau ariannol a chynlluniau'r gwasanaeth at y dyfodol.

- Nid oedd 2021-2022 yn flwyddyn nodweddiadol oherwydd derbyn grantiau adfer o Covid.
- Bu tanwario oherwydd y grantiau, felly nid yw hyn yn cynrychioli'r gyllideb i mewn i 2022-23. Bu peth gorwario, megis y lleoliadau i famau a'u babanod, plant yn ceisio lloches, etc. Y gwir yw bod y gyllideb yn awr yn wahanol iawn.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Covid yn dal i greu pwysau ariannol.

- Yr oedd Covid yn dal i greu pwysau oherwydd y canlyniadau megis afiechyd meddwl ymysg oedolion.
- Yr oedd staff yn absennol gyda Covid gan ei fod yn dal o gwmpas, ac yr oedd yn waith caled cadw staff.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau am staffio ac effaith salwch ar y staff.

- Nid oedd niferoedd mawr o staff yn absennol, ac yr oedd modd rheoli'r lefelau.

Gofynnodd y Pwyllgor am swyddi gwag yn y gwasanaethau cymdeithasol

- Yr oedd 21% o swyddi gwag am weithwyr cymdeithasol yn y gwasanaethau plant
- Tebyg oedd y graddfeydd mewn gofal preswyl.

6 **Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau**

Yr oedd y Pwyllgor eisiau cyfoesiadau am y Rhaglen Dileu, Camu-Lan Camu Lawr, a landlordiaid cofrestredig yn ogystal â chyfoesiad am y plant heb eu cofrestru.

Byddid yn cytuno ar ddyddiad i'r Pwyllgor ym Mawrth 2023 ar gyfer y cyfoesi a'r cyflwyniad am y Rhaglen Dileu a chytunodd y Pwyllgor i gynnull cyfarfod ychwanegol ar gyfer y cyflwyniad hwn.

Byddai aelodau yn cael deunyddiau diogelu i'w dosbarthu.

7 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu y byddai'r cyfarfod nesaf ar 24 Ionawr 2023 fyddai'n edrych ar y cynigion drafft am y gyllideb.

Hysbysodd yr Ymgynghorydd Craffu'r pwyllgor fod rhai camau wedi eu dwyn ymlaen.

8 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

24 Ionawr 2023 am 10am

9 **Digwyddiad Byw**

Gallwch wylio recordiad o'r cyfarfod yma.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified